Cynllun cydraddoldeb hiliol Oftel – rhagair a dogfen Ymgynghori gryno a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu

15 Hydref 2002

Rhagair gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu

Nod Oftel yw cael y fargen orau ar gyfer defnyddwyr telathrebu o ran ansawdd, dewis a gwerth am arian.

Rhoddodd Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ddyletswydd gyffredinol ar y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i 'roi ystyriaeth briodol i'r angen i' ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, a hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol da. Mae Oftel yn un o lawer o awdurdodau cyhoeddus ar draws y wlad sydd bellach â dyletswydd benodol i gynhyrchu cynllun cydraddoldeb hiliol. Mae'r cynllun cydraddoldeb hiliol yn rhan hanfodol o roi'r ddyletswydd hon ar waith.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu nodau Oftel a'r ffyrdd ymarferol y mae'n bwriadu cyflawni dyletswyddau newydd. Mae'r cynllun cydraddoldeb hiliol hwn yn ddogfen waith, a chaiff ei hadolygu a'i diwygio yn rheolaidd. Bydd Oftel yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar y cynnydd a wnaed. Fel awdurdodau cyhoeddus eraill, bydd Oftel hefyd yn dysgu sut y bydd y dyletswyddau newydd yn effeithio arno. Mae Oftel yn awyddus i weithio gyda sefydliadau eraill i gyflawni ei nod ac adeiladu ar ei gyflawniadau.

I gloi, fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu, hoffwn fynegi fy ymrwymiad personol i'r nodau, yr amcanion a'r gwerthoedd a nodwyd yn y cynllun hwn. Rwy'n benderfynol y bydd Oftel yn cyrraedd ei dargedau, ar gyfer ei gyflogeion, ac yn fwy cyffredinol, y bobl a gaiff eu heffeithio gan ei bolisïau bob blwyddyn. Gwn y bydd ymroddiad a phenderfyniad staff Oftel yn fy helpu i gyflwyno'r agenda hon, a bwriadaf ddarparu'r arweinyddiaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i sicrhau llwyddiant.

David Edmonds
Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu

Crynodeb

S.1 Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 ("y Ddeddf"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Awdurdod cyhoeddus penodedig yw Oftel at ddibenion y Ddeddf.

S.2 Nod y ddyletswydd yw gwneud cydraddoldeb hiliol yn rhan ganolog o'r ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus yn gweithio, drwy ei wneud yn ganolbwynt ar gyfer gwneud polisïau, darparu gwasanaethau, ac arfer cyflogaeth. Yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi 'ystyriaeth briodol i'r angen i':

a) dileu gwahaniaethu ar sail hil yn anghyfreithlon;
b) hyrwyddo cyfle cyfartal; a
c) hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol.

S.3 Ategir y ddyletswydd gyffredinol gan gyfres o ddyletswyddau penodol. Un o'r dyletswyddau penodol yw cyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol (RES).

S.4. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu nodau Oftel a'r ffyrdd ymarferol y mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau newydd. Mae'n crynhoi ymagwedd Oftel tuag at gydraddoldeb hiliol a'i nodau corfforaethol. Mae'n amlinellu trefniadau Oftel ar gyfer:

a) asesu a chynghori ar effaith debygol ei swyddogaethau a'i bolisïau ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol;
b) monitro ei swyddogaethau a'i bolisïau ar gyfer unrhyw effaith andwyol ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.
c) cyhoeddi canlyniadau asesiadau, ymgynghori a monitro o'r fath;
ch) sicrhau mynediad cyhoeddus i'r wybodaeth a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo; a
d) hyfforddi staff mewn cysylltiad â'r dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf.

S.5 Mae RES Oftel yn cynnwys Rhagair gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu ("y Cyfarwyddwr") lle mae'n cadarnhau ei ymrwymiad personol i'r nodau, yr amcanion a'r gwerthoedd a nodir yn y cynllun.

S.6 Mae Pennod 1 yn nodi'n fras gefndir y newidiadau i'r Ddeddf, nod y ddyletswydd ac mae'n esbonio beth yw RES.

S.7 Mae pennod 2 yn nodi nodau ac amcanion Oftel ac mae'n darparu esboniad byr ynglyn â'i dair cyfarwyddiaeth. Mae'n cyfeirio hefyd at bedair Cyfarwyddeb Cysylltiadau newydd y Comisiwn Ewropeaidd, y Mesur Cysylltiadau drafft a'r dyfodol newydd ar gyfer cysylltiadau.

S.8 Mae pennod 3 yn amlinellu cynigion Oftel ar gyfer ei RES i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y Ddeddf ac mae Pennod 4 yn ymdrin â'r dyletswyddau penodol ar gyfer cyflogwyr.

S.9 Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio sylwadau ar gynigion Oftel ar gyfer ei Res gan bob grwp sydd â diddordeb dilys yn:

a) gwaith Oftel (neu ran ohono); ac
b) effaith ei swyddogaethau a'i bolisïau ar ddileu gwahaniaethu ar sail hil yn anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol.

S.10 Mae pennod 5 yn dod â'r cwestiynau y mae Oftel yn ymgynghori arnynt at ei gilydd.

S.11 Mae Oftel yn gofyn am sylwadau ar y cynigion hyn erbyn 7 Ionawr 2003 ac yn gobeithio cyhoeddi ei RES ym mis Chwefror 2003.

Y broses ymgynghori a'r amserlen

Sut i wneud sylwadau ar y cwestiynau a grybwyllir yn y ddogfen ymgynghori hon

Mae Oftel yn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori hon fel y gall y partïon sydd â diddordeb wneud sylwadau ar y materion y mae'n ymdrin â hwy. Mae Oftel yn rhaglennu cyfnod ymgynghori ffurfiol o 12 wythnos. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 7 Ionawr 2003. Ar yr achlysur hwn, bydd Oftel hefyd yn gwahodd y partïon sydd â diddordeb i wneud sylwadau ar yr ymatebion a wnaed gan eraill (gweler isod am drefniadau cyhoeddi). Y dyddiad cau ar gyfer y "sylwadau ar y sylwadau" hyn yw 21 Ionawr 2003.

Lle bo'n bosibl, dylid ysgrifennu sylwadau, a'r sylwadau ar y sylwadau, a'u hanfon drwy e-bost at julia.bradford@oftel.gov.uk. Fodd bynnag, gellir anfon copïau drwy'r post neu drwy ffacs i'r cyfeiriad isod. Os na all unrhyw bartïon sydd â diddordeb ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn, dylent drafod dulliau eraill o ymateb gyda:

Julia Bradford
Oftel
50 Ludgate Hill
London
EC4M 7JJ

Ffôn: 020 7634 8838
Ffacs: 020 7634 8847
E-bost: julia.bradford@oftel.gov.uk